

Ffurflen Gais: Adolygiad o Ddynodi a Dad-ddynodi Dyfroedd Ymdrochi ar gyfer 2021

Mae'n rhaid cwblhau'r ffurflen hon a'i hanfon gydag unrhyw gais i ddynodi neu ddad-ddynodi dyfroedd ymdrochi yng Nghymru.

Rhowch y wybodaeth y gofynnir amdani isod mewn perthynas â cheisiadau am ddynodi neu ddad-ddynodi dyfroedd ymdrochi.

Eich enw	Click or tap here to enter text.
Sefydliad	Click or tap here to enter text.
E-bost	Click or tap here to enter text.
Cyfeiriad post	Click or tap here to enter text.
Rhif ffôn	Click or tap here to enter text.

Cyflwynwch eich ymatebion drwy e-bost i:

water@llyw.cymru

Drwy'r post i'r:

Tîm Dŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Adran 1

Ydych chi'n cyflwyno cais i ddynodi dŵr ymdrochi newydd?

Ydw ☐ cwblhewch ran 2 a rhowch y dystiolaeth a ddisgrifir.

Nac ydw ☐

Ydych chi'n cyflwyno cais i ddad-ddynodi dŵr ymdrochi rydych chi'n credu nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach gan nifer mawr o ymdrochwyr?

Ydw ☐ cwblhewch ran 3 a rhowch y dystiolaeth

Nac ydw ☐

Ydych chi'n cyflwyno sylwadau?

Ydw ☐ cwblhewch ran 4

Nac ydw ☐

Adran 2

Oes yna unrhyw ddyfroedd arfordirol neu fewndirol rydych chi'n gwybod amdanynt sy'n cael eu defnyddio ar gyfer ymdrochi gan nifer fawr o ymdrochwyr ond nad ydynt wedi'u dynodi'n ddyfroedd ymdrochi ar hyn o bryd? Os felly, rhowch y manylion isod:

Enw'r dŵr ymdrochi arfaethedig:	Click or tap here to enter text.
Cyfeiriad:	Click or tap here to enter text.
Cyfeirnod Grid Cenedlaethol:	Click or tap here to enter text.

Ai chi yw perchennog neu'n lesddeiliad y safle?

Perchennog ☐

Lesddeiliad ☐

Nid y naill na'r llall ☐ cwblhewch y manylion isod

Enw a manylion cyswllt y perchennog neu'r lesddeiliad	Click or tap here to enter text.
Yw'r perchennog neu'r lesddeiliad yn cefnogi'r cais?	Click or tap here to enter text.

Pan fyddwch chi'n nodi enw'r dŵr ymdrochi arfaethedig, dylech sicrhau ei fod yr un fath â'r enw presennol sy'n ymddangos ar ddyfarniadau traethau, proffiliau Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ati. Mae hyn i sicrhau y rhoddir negeseuon cyson a bod modd adnabod dyfroedd ymdrochi yng Nghymru yn hawdd.

Tystiolaeth/gwybodaeth ddefnyddiol sydd i'w darparu gyda cheisiadau am ddynodiad

Dylech gyflwyno dystiolaeth ynghylch nifer yr ymdrochwyr gyda'r cais. Isod nodir y dystiolaeth y byddai'n ddefnyddiol ei rhoi a gall fod ar gael gan awdurdod lleol yr ardal:

- Arolwg defnyddwyr a gynhaliwyd ar adegau yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai tan 30 Medi) pan fyddai disgwyl y defnydd mwyaf (penwythnosau, gwyliau banc, hanner tymor mis Mai a gwyliau haf ysgolion).
- Dylai arolygon gael eu cynnal ar adeg o'r dydd pan fyddai disgwyl nifer fawr o ddefnyddwyr (11am tan 3pm).
- Dylai'r arolwg gwmpasu o leiaf 20 diwrnod a chynnwys dystiolaeth.
- Manylion am nifer y nofwyr, padlwyr a defnyddwyr eraill y traeth.

Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod safleoedd sy'n cael eu dynodi yn bodloni'r diffiniad o nifer fawr o ymdrochwyr yn llawn.

Tystiolaeth a gwybodaeth arall y gellir eu darparu gyda'r cais am ddynodiad

Dylech gynnwys map, cynllun neu gyfeirnodau grid sy'n dangos maint y dŵr ymdrochi arfaethedig a gwybodaeth am y cyfleusterau ar safle'r dŵr ymdrochi sydd wedi'u bwriadu'n benodol ar gyfer ymdrochwyr. Gallai enghreifftiau o gyfleusterau ar safle dŵr ymdrochi gynnwys y canlynol:

- cyfleusterau mynediad i ardal y dŵr ymdrochi;
- toiledau neu gawodydd;
- meysydd parcio;
- achubwyr bywydau;
- marcwyr sy'n dangos mannau ymdrochi;
- gwasanaeth cymorth cyntaf;
- ciosgau a siopau, gan gynnwys ciosgau a siopau symudol;
- cyfleusterau newid;
- chwaraeon dŵr, er y gall chwaraeon dŵr dwys atal ymdrochi mewn rhai achosion;
- glanhau'r traeth yn rheolaidd;
- deunydd hyrwyddo (taflenni, arwyddion neu wefan);
- hanes o ymdrochi ar y safle;
- cyfeiriadau at y ffaith bod y safle'n dda ar gyfer ymdrochi mewn teithlyfrau;
- tystiolaeth bod yr awdurdod perthnasol neu'r corff rheoli yn ceisio cefnogi a hybu ymdrochi.

Tystiolaeth o ymgynghori lleol

Lle bo modd, a fyddech cystal ag amlinellu unrhyw ffordd y rhoddwyd ystyriaeth i farn pobl lleol mewn perthynas â'r dynodiad arfaethedig. Gallai enghreifftiau o grwpiau sydd â buddiant gynnwys y canlynol:

- Ymdrochwyr a defnyddwyr eraill dŵr ymdrochi, gan gynnwys clybiau/grwpiau nofio
- Perchnogion a gweithredwyr busnesau cyfagos, e.e. caffis a siopau
- Grwpiau cymdogaeth a chymunedol
- Grwpiau amgylcheddol a dinesig lleol
- Yr Awdurdod Lleol neu Gynghorau Cymuned
- Swyddfa dwristiaeth lleol neu gorff twristiaeth lleol arall
- Siambr Fasnach Lleol
- Swyddfa adfywio lleol neu gorff adfywio lleol arall.

Atodir tabl dewisol yn Atodiad A y gallech fod am ei ddefnyddio i gofnodi nifer yr ymdrochwyr a defnydd arall yn ystod y tymor ymdrochi.

Ydych chi wedi cynnwys tystiolaeth o nifer yr ymdrochwyr sy'n defnyddio'r safle yn ystod y tymor ymdrochi?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Ydych chi wedi cynnwys gwybodaeth am gyfleusterau ar y safle?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Ydych chi wedi cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth ynghylch barn y cyhoedd?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Adran 3

Oes yna unrhyw ddyfroedd ymdrochi dynodedig rydych chi'n credu y dylid eu dad-ddynodi gan nad ydynt yn cael eu defnyddio gan nifer fawr o ymdrochwyr mwyach?

Oes ☐ Nac oes ☐

Os felly, nodwch y canlynol:

Enw'r dŵr ymdrochi sydd wedi'i ddynodi ar hyn o bryd:	Click or tap here to enter text.
Cyfeiriad:	Click or tap here to enter text.
Cyfeirnod Grid Cenedlaethol:	Click or tap here to enter text.

Ai chi yw perchennog neu'n lesddeiliad y safle?

Perchennog ☐

Lesddeiliad ☐

Nid y naill na'r llall ☐ cwblhewch y manylion isod

Enw a manylion cyswllt y perchennog neu'r lesddeiliad	Click or tap here to enter text.
Yw'r perchennog neu'r lesddeiliad yn cefnogi'r cais?	Click or tap here to enter text.

Tystiolaeth o ddefnydd isel gan ymdrochwyr ar gyfer dad-ddynodi

Dylech gyflwyno tystiolaeth o ddefnydd isel/dim defnydd yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai tan 30 Medi) gyda'r cais am ddad-ddynodi.

Isod nodir y math o dystiolaeth a allai ddangos hyn:

- Arolwg defnyddwyr ar adegau yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai tan 30 Medi) pan fyddai disgwyl y defnydd mwyaf fel arfer, ond mae tystiolaeth o ddim/nifer fach o ymdrochwyr.
- Dylai'r arolwg gael ei gynnal ar adeg o'r dydd pan fyddai disgwyl nifer fawr o ymdrochwyr, ond mae tystiolaeth o ddim/nifer fach o ymdrochwyr (11am tan 3pm).
- Dylai'r arolwg gwmpasu o leiaf 20 diwrnod.

Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau nad yw safleoedd a ddad-ddynodir yn cael eu defnyddio gan nifer fawr o ymdrochwyr mwyach.

Tystiolaeth a gwybodaeth arall ar gyfer dad-ddynodi

Dylech gynnwys map, cynllun neu gyfeirnodau grid sy'n dangos maint y dŵr ymdrochi a gwybodaeth am unrhyw newidiadau o ran defnydd dŵr ymdrochi/nifer yr ymdrochwyr.

Hefyd, dylech roi tystiolaeth o unrhyw gyfleusterau i gefnogi neu hybu ymdrochi a dynnwyd yn ôl yn ddiweddar (megis achubwyr bywydau, cabanau glan môr, cawodydd a chyfleusterau newid). Gallai enghreifftiau o'r rhain gynnwys y canlynol:

- Lle cafwyd gwared ar gyfleusterau yn ddiweddar, llythyr yn amlinellu'r rhesymau dros dynnu gwasanaethau yn ôl.
- Unrhyw dystiolaeth i gefnogi newidiadau o ran y defnydd o ddŵr ymdrochi.

Hefyd, gallech fod am gynnwys ffyrdd y rhoddwyd ystyriaeth i farn pobl leol mewn perthynas â'r bwriad i ddad-ddynodi a'r canlyniad. Gallai enghreifftiau o grwpiau â buddiant gynnwys y canlynol:

- Ymdrochwyr a defnyddwyr eraill dŵr ymdrochi, gan gynnwys clybiau/grwpiau nofio;
- Perchnogion a gweithredwyr busnesau cyfagos, e.e. caffis a siopau;
- Grwpiau cymdogaeth a chymunedol;
- Grwpiau amgylcheddol a dinesig lleol;
- Yr Awdurdod Lleol neu Gynghorau Cymuned;
- Swyddfa dwristiaeth leol neu gorff twristiaeth lleol arall;
- Siambr Fasnach Leol;
- Swyddfa adfywio leol neu gorff adfywio lleol arall.

Atodir tabl dewisol yn Atodiad A y gallech fod am ei ddefnyddio i gofnodi nifer yr ymdrochwyr a defnydd arall yn ystod y tymor ymdrochi. Hefyd, gallech fod am ddarparu gwybodaeth am ddefnydd ar gyfer cymharu, h.y. nifer yr ymdrochwyr pan oedd y dŵr ymdrochi wedi'i ddynodi.

Rydym yn argymhell bod hysbysiadau o fwriad i ddad-ddynodi'n cael eu gosod ar safle'r dŵr ymdrochi a hysbysfyrddau cymunedol eraill yn ystod y tymor ymdrochi, ynghyd â manylion cyswllt i'r rheiny sydd am wneud sylwadau. Eto, efallai y bydd awdurdod lleol yr ardal yn gallu helpu gyda hyn.

Sylwch, pe byddai'n cael ei ddad-ddynodi, na fyddai'r dŵr ymdrochi'n cael ei samplo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mwyach ac y gallai'r dŵr ymdrochi golli'r lefelau uchel o amddiffyniad sydd ganddo ar hyn o bryd.

Sylwch NAD yw ansawdd dŵr yn rheswm dilys dros ddad-ddynodi. Ni fydd ceisiadau am ddad-ddynodi ar sail ansawdd dŵr yn cael eu cymeradwyo.

Os ceir ceisiadau sy'n seiliedig ar waharddiad lleol neu gyngor yn erbyn ymdrochi, bydd angen y canlynol arnom hefyd:

- Y rheswm dros y gwaharddiad.
- Tystiolaeth o'r gwaharddiad mewn deddf leol neu brotocol gweithredu.
- Tystiolaeth ynghylch sut y cyfathrebir y gwaharddiad a sut y caiff ei orfodi.

Adran 4

Oes gennych chi unrhyw safbwyntiau neu sylwadau eraill ynghylch dyfroedd ymdrochi? Defnyddiwch y lle isod.

Click or tap here to enter text.

Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau (gan gynnwys gwybodaeth mewn ffurflenni cais) ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych chi i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y bocs. ☐

Atodiad A

[illegible]